



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Arolwg Aráe Solar Cyngor Sir Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Medi 2017

Paratowyd gan Gyngor Sir Penfro

Cyflwyniad	3
Tabl o'r safleoedd a arolygwyd.....	3-5
Safleoedd bach	4
Capasiti a ganiateir ac a weithredir	4
Lleoliad Araeau Solar yn Sir Benfro Medi 2016	6

Arolwg Aráe Solar Cyngor Sir Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2017

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am leoliad a statws araeau solar annibynnol yn Sir Benfro. Mae'n darparu gwybodaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i asesu effeithiau cronol posibl cynigion newydd ar dirwedd. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y capasiti a gyflwynir bob blwyddyn drwy araeau solar annibynnol. Nid yw araeau solar domestig bach nac araeau ar doeon domestig wedi'u cynnwys yn yr arolwg hwn; mae araeau solar annomestig bach ac araeau ar doeon annomestig y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer wedi'u cynnwys. Cafodd yr arolwg cyntaf o geisiadau cynllunio ar gyfer araeau solar a gymeradwywyd ei gynnal gan Gyngor Sir Penfro ym mis Awst 2014. Cafodd yr arolygon dilynol eu cynnal ym mis Medi 2015, Medi 2016 a Medi 2017. Cafodd yr arolygon eu hymestyn i gynnwys ceisiadau cynllunio ar gyfer araeau solar Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a cheir manylion y rhain ar dudalen 4 yr adroddiad hwn.

Tabl o'r safleoedd a arolygwyd

Mae'r tabl canlynol yn dangos manylion yr araeau solar a gymeradwywyd, sydd oll o fewn ardal gynllunio'r Cyngor. Mae statws y safle'n nodi p'un a oedd safle wedi'i gwblhau ym mis Medi 2017 ai peidio.

Cyfeirnod Cynllunio	Lleoliad y Safle	Statws y Safle	Capasiti (MW)	Maint y safle (Hectarau)
12/0162/PA	Clawddcam, Mathri	Heb ei ddechrau	7.5	17.14
12/0909/PA ¹	Trecoed, Treletert	Heb ei ddechrau	9	21.90
15/0443/PA	Tir i'r dwyrain o'r A4076 (T) yn Pope Hill, Johnston	Wedi'i gwblhau	5	17
16/0315/PA	Little Garness, Llanteg, Arberth	Yn cael ei adeiladu	0.01	0.027

¹ Caniatawyd y cais drwy apêl, cyfeirnod yr apêl: APP/N6845/A/13/2204295

Araeau ar y to - Cafodd tri safle annomestig ag araeau ar y to eu harolygu, a cheir eu manylion isod:

Cyfeirnod Cynllunio	Lleoliad y Safle	Statws y Safle	Capasiti (MW)	Arwynebedd y to - metrau sgwâr
16/0606/PA	Melin Tregwynt, Casmorys, Hwlfordd	Heb ei ddechrau	0.03	37
16/0155/PA	Neuadd y Dref, Main Street, Penfro	Wedi'i gwblhau	Heb ddatgan	58

Safleoedd bach - Ardal gynllunio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Nid oes unrhyw safleoedd araeau solar mawr yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, arolygwyd dau safle bach a gymeradwywyd o fewn ffiniau'r Parc, a cheir eu manylion isod:

Cyfeirnod Cynllunio	Lleoliad y Safle	Statws y Safle	Capasiti (MW)	Arwynebedd y safle (Hectarau)
NP/15/0378	Cae drws nesaf i'r maes carafannau - Parsonage Farm, Amroth, Arberth	Heb ei ddechrau	0.01	0.01
NP/17/0180	Fagwyr Einon, Llanychaer, Abergwaun	Wedi'i gwblhau	Heb ddatgan	0.006

Capasiti a ganiateir ac a weithredir

	Cyfanswm MW a gymeradwywyd	Cyfanswm MW a weithredir	Cyfanswm MW heb ei ddechrau	Cyfanswm MW sy'n cael ei adeiladu
Arolwg 2017	0.03	5.00	16.54	0.01
Arolwg 2016	36.99	15.47	21.51	0.01
Arolwg 2015	36.63	126.33	29.21	0

Arolwg 2014	153.77	34.86	58	60.9
Cyfanswm hyd yma	227.39	205.87	21.51	0.01

D.S.: Nid yw'n cynnwys y ddau safle lle nad yw'r allbynnau pŵer yn hysbys.

Lleoliad Araeau Solar yn Sir Benfro Medi 2017

